



Gwobr Lefel 2 mewn Atgyweirio Cerbydau Trydan / Hybrid (Rhan-Amser)

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer technegwyr sy'n cynnal ac yn atgyweirio cerbydau trydan / hybrid. Mae'n cynnwys y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i weithio'n ddiogel o amgylch system drydanol foltedd uchel ac isel cerbyd a system trên gyriant trydan, wrth wneud atgyweiriadau neu gynnal a chadw.

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu'r pynciau a ganlyn:

- Y mathau o gerbydau trydan / hybrid sydd ar gael
- Peryglon sy'n gysylltiedig â systemau trydanol ynni uchel cerbydau modur
- Gweithio'n ddiogel o amgylch cerbydau trydan / hybrid gan gynnwys gwefru
- Sut i leihau'r risg o anaf wrth ddod ar draws cerbydau trydan / hybrid
- Sut i gludo a storio cerbydau trydan / hybrid yn ddiogel

Gofynion Mynediad

Nid oes angen unrhyw ofynion mynediad ffurfiol er y cynghorir i'r cwrs hwn gael ei ddilyn gan weithwyr sydd â chyfrifoldebau personél gwasanaeth brys ac adferiad ochr ffordd perthnasol.

Rhagolygon Gyrfa

Mae llwybrau dilyniant ar gael a phob unigolyn sy'n dymuno cynyddu ei wybodaeth hybrid a cherbydau trydan yn gallu dilyn y cwrs canlynol:

- Gwobr Lefel 3 Mewn Atgyweirio ac Amnewid Cerbydau Trydan / Hybrid EV3

Asesiad

Llyfrau gwaith asesu ymarferol a theori wedi'u cwblhau yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth a'r gweithdy ynghyd â phrawf terfynol wedi'i achredu gan yr IMI.

DULL ASTUDIO

PT



GRŴP COLLEGAU **NPTC** GROUP OF COLLEGES

Datblygu Busnes
Business Development



**Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success**

LLEOLIAD

HYD Y CWRS

2D